Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diffodd tanau'r dyfodol

Atal yn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Gorffennaf 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi o dan adran 17 (2) (d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gallai hefyd hysbysu adrodd o dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, mae'n rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac mae'n rhaid nad yw mewn cyd-destun camarweiniol. Mae'n rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ailddefnyddio.


## Os ydych angen unrhyw gymorth gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os byddwch angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith amgen:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb i chi yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddir gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg ar yr archwiliad 4
Ffeithiau a ffigurau allweddol 6
Ein canfyddiadau 7
Argymhellion 15
1 Ynglŷn â'n gwaith 18
Amdanom ni 20

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom edrych arno

1 Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu’r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth.

2 Ceir sawl dull i waith atal gan yr Awdurdod. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae’r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol. Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae atal yn hanfodol bwysig oherwydd bod ganddo’r potensial i achub bywydau ac atal anafiadau difrifol rhag digwydd. Mae ganddo’r fantais hefyd o osgoi difrod i gartrefi pobl a’r tarfu a achosir gan golli eiddo. Gall hyn arwain at fanteision i unigolion, teuluoedd, a chymunedau ehangach.

4 Gall targedu ymdrechion at y bobl fwyaf agored i niwed hefyd fod yn arwydd bod yr Awdurdod yn sicrhau gwerth da am arian. Mae hyn oherwydd bod adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod yn cael eu canolbwyntio ar y risgiau cymunedol mwyaf.

5 Gellir cysylltu bod yn agored i niwed â ffurfiau amrywiol o anfantais hefyd. Mae targedu ymdrechion at bobl agored i niwed yn helpu i ddangos bod yr awdurdod yn gweithredu yn unol â’r dyletswyddau cyfreithiol sydd arno o ran cydraddoldeb. Mae atal hefyd yn un o’r bum ffordd o weithio i helpu’r Awdurdod ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Yr hyn yr ydym wedi ei ganfod

6 Mae gan yr Awdurdod ddull sylfaenol da o ymdrin â'i waith atal tân wedi'i dargedu. Mae hyn yn cynnwys rhai meysydd o arferion addawol. Fodd bynnag, gallai wneud mwy i sicrhau ei fod yn targedu ei adnoddau fel eu bod wedi'u canolbwyntio lle mae eu hangen fwyaf bob amser.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i gynorthwyo'r Awdurdod i wella ei ddull. Mae hyn yn cynnwys asesu lle y gallai bylchau fodoli yn null presennol yr Awdurdod a chynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Rydym hefyd yn argymell bod yr Awdurdod yn cryfhau ei ddealltwriaeth o'r gwerth a sicrheir gan ei weithgareddau atal i helpu i dargedu camau ymhellach i gael yr effaith fwyaf.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

- 33% – y gostyngiad i danau annedd rhwng 2009-10 a 2023-24

- 43% – y gostyngiad i farwolaethau ac anafusion mewn tanau o 2009-10 a 2023-24

- saith – nifer y ffactorau risg a ddefnyddir gan yr Awdurdod i nodi pobl sydd yn y perygl mwyaf

- pump neu fwy – nifer y ffactorau risg sydd eu hangen ar aelwyd i gael ei ddosbarthu'n uchel ei risg

- 29.4% – cyfran yr ymweliadau diogelwch cartref a gwblhawyd ar aelwydydd risg uwch yn ystod naw mis cyntaf 2024-25

# Ein canfyddiadau

## Mae gan yr Awdurdod ddealltwriaeth resymol o bwy sydd mewn perygl uchel o dân, ond gallai wneud mwy i sicrhau nad oes neb yn cael ei fethu

8 I nodi pobl mewn perygl, mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub ddeall dwy elfen. Yn gyntaf, y ffactorau sy'n debygol o wneud pobl i fod mewn perygl uwch o dân. Yn ail, sut i nodi'r unigolion sy'n cael profiad o'r ffactorau hyn. Mae deall y ddau yn allweddol i weithgareddau targedu Awdurdodau Tân ac Achub, fel ymweliadau diogelwch cartref, at y rhai sydd eu hangen fwyaf.

9 Mae'r Awdurdod wedi cymryd sawl cam allweddol i'w helpu i ddeall pa bobl sydd mewn perygl uwch. Mae'n manteisio ar amrywiaeth o ffynonellau i wneud hyn. Mae'r Awdurdod yn cyfuno'r ffynonellau hyn i nodi aelwydydd a lleihau bylchau posibl rhwng y gwahanol ffynonellau. Mae'n manteisio ar:

- ddata o danau blaenorol;
- atgyfeiriadau gan 69 o bartner asiantaethau;
- atgyfeiriadau gan y cyhoedd a chriwiau tân lleol; a
- data gan y GIG.

10 Mae defnydd yr Awdurdod o ddata GIG yn arbennig o addawol. Mae'r Awdurdod wedi datblygu map i ddangos lle mae aelwydydd â ffactorau risg uchel wedi'u lleoli. Mae'n cofnodi wedyn lle mae ymweliad wedi cael ei gynnal, fel y gall defnyddwyr weld yn amlwg lle mae swyddogion wedi ymweld â thŷ uchel ei risg. Mae'n bwriadu gwella hyn ymhellach drwy ychwanegu data o ddigwyddiadau gwirioneddol. Gallai hyn helpu'r Awdurdod i ddeall pa un a yw ei waith atal yn cyflawni ei nodau.

11 Fodd bynnag, gall pob ffynhonnell ddata fod â'i chyfyngiadau. Gall data GIG fod yn anghyflawn weithiau. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig i'r Awdurdod wirio gyda ffynonellau eraill i helpu i nodi aelwydydd risg uwch.

12 Yn yr un modd, nid yw data o danau blaenorol bob amser yn ganllaw cyflawn i risg yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai grŵp poblogaeth fod mewn perygl uwch o ddioddef tân heb gael ei ddangos yn y data yn eglur oherwydd poblogaeth fach yn lleol. Nid yw data o'r gorffennol yn ffynhonnell dda o wybodaeth am risgiau sydd ddim ond newydd ddod i'r amlwg chwaith.

13 Efallai nad yw data yn nodi mathau penodol o risg chwaith. Er enghraifft, mae'n hysbys bod pobl a oedd yn byw mewn sefyllfaoedd ynysig mewn perygl uwch o dân. Byddai hyn yn cynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac felly na fyddai'n cael eu dangos yn y data. Gallai hefyd olygu eu bod yn llai tebygol o gael eu hatgyfeirio i'r Awdurdod. Mae hwn yn fwlch posibl mewn unrhyw ddull i ddod o hyd i bobl sy'n wynebu lefelau uwch o risg.

14 Mae'r Awdurdod wedi cydnabod rhai o'r bylchau a'r heriau posibl y mae'n eu hwynebu yn ei ddull. Mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid oes ganddo ddull systematig cyflawn o wneud hyn.

15 Hefyd, mae'r broses ar gyfer penderfynu pa un a yw pobl mewn perygl uchel yn cynnwys dyfarniadau sylweddol. Mae partner asiantaethau yn chwarae rhan bwysig o ran gwneud y dyfarniadau hyn. Gall atgyfeiriadau fod â manteision ac anfanteision, y mae swyddogion wedi dangos eu bod yn ymwybodol ohonynt. Eu prif fantais yw manteision ar wybodaeth partneriaid am y gymuned. Anfantais bosibl yw efallai na fydd partneriaid yn gwneud atgyfeiriad, gan arwain at fethu unigolyn risg uwch. I helpu gyda hyn, mae'r Awdurdod wedi rhoi hyfforddiant i bartneriaid ar sut i wneud atgyfeiriadau da. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar yr hyn sy'n aelwyd risg uwch neu is ac ar gwblhau ffurflenni yn gywir. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod i sicrhau ansawdd yr atgyfeiriadau y mae'n eu derbyn.

16 Mae’r Awdurdod wedi cymryd camau i gynnwys grwpiau. Er enghraifft, tra roedd yn datblygu ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol. Fodd bynnag, roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu materion cyffredinol yn unig. Nid oedd yn edrych ar y newidiadau penodol y gallai’r Awdurdod eu gwneud i wneud ei waith yn fwy cynhwysol. Mae cyfranogiad cymunedol gan yr Awdurdod yn helpu i sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn o’r ardal a’i risgiau. Gallai cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig helpu i ddod o hyd i ffactorau risg nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd sy’n rhoi pobl mewn mwy o berygl. Gall cyfranogiad hefyd helpu’r Awdurdod i sicrhau bod ei ymweliadau diogelwch cartref yn gynhwysol yn eu darpariaeth.

## Mae gan yr Awdurdod ddull eglur o dargedu risg, ond dylai wirio ar gyfer canlyniadau na fwriadwyd

17 Mae’r Awdurdod yn gwneud ymdrech systematig i dargedu ei waith atal at y rhai sy’n wynebu’r perygl mwyaf o dân. Mae’n asesu lefel y risg sy’n cael ei pheri gan bob aelwyd ac yn mesur eu lefel risg. Yn gyffredinol, mae’r Awdurdod yn rhoi ymateb cyflymach a mwy arbenigol i’r aelwydydd risg uchaf. Mae blaenoriaethu yn ôl risg yn helpu i sicrhau bod pobl sydd mewn mwy o berygl o dân yn cael cymorth cyn i ddigwyddiadau godi.

18 Mae’r Awdurdod yn ailadrodd ymweliadau diogelwch cartref ag aelwydydd risg uwch i barhau i fonitro eu risg. Mae’n ail-ymgysylltu ag aelwydydd risg uwch tua un i dair blynedd ar ôl eu hymweliad diogelwch cartref cychwynnol. Mae hyn yn addawol am sawl rheswm. Mae llawer o’r ffactorau sy’n cynyddu’r perygl o dân ymhlith pobl, fel oedran neu eiddilwch, yn debygol o waethygu dros amser. Ar yr un pryd, bydd manteision posibl yr ymweliad cychwynnol yn lleihau, fel cyngor yn cael ei anghofio neu offer yn torri. Mae ailadrodd ymweliadau yn helpu i ategu dull yr Awdurdod o leihau risg a thargedu’r rhai sydd mewn angen fwyaf.

19 Fodd bynnag, nid yw’n eglur bod yr Awdurdod wedi asesu pa un a yw ei dargedu o weithgarwch bob amser yn cyd-fynd â’i barodrwydd i dderbyn risg. Bu’n rhaid i’r Awdurdod wneud penderfyniadau anodd am:

- Pa ffactorau risg i ganolbwyntio arnynt?
- Pa ffactorau risg i’w diystyru?

- Sut i rannu cartrefi rhwng risg isel, ganolig, ac uchel?
- Pwy sy'n gymwys i dderbyn pa offer?

20 Mae'n bwysig i'r Awdurdod fod yn hyderus nad yw ei ddull yn amlygu unrhyw aelwydydd y lefel o risg y mae'n ei ystyried yn annerbyniol. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan y gall newidiadau bach wneud gwahaniaeth i'r ymateb gan yr Awdurdod. Er enghraifft, gallai'r gwahaniaeth rhwng risgiau uchel a chanolig newid ar sail rhywbeth bach, fel pen-blwydd yr wythnos ar ôl asesiad ac nid wythnos ynghynt. Gallai hyn newid yr ymateb a roddir gan yr Awdurdod.

21 Gallai dull yr Awdurdod arwain at wahanol ganlyniadau i aelwydydd â nodweddion tebyg. Er enghraifft:

- Pan fo'r Awdurdod yn ailadrodd ymweliadau ag aelwydydd, mae'n cynnwys y rhai a aseswyd yn risg uwch yn wreiddiol yn unig. Gallai hyn olygu y gallai aelwydydd y mae eu risg wedi cynyddu ond na chawsant eu hasesu'n risg uwch yn wreiddiol gael eu methu. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod ganddynt yn union yr un faint o angen.
- Mae dull targedu'r Awdurdod yn wahanol rhwng atgyfeiriadau a data GIG. Byddai unigolyn 75 mlwydd oed heb unrhyw ffactorau risg wedi'u nodi mewn data yn gymwys ar gyfer ymweliad gan griw tân, ond byddai unigolyn 75 mlwydd oed ag un neu ddau o ffactorau risg wedi'u nodi o atgyfeiriad yn gymwys ar gyfer galwad ffôn fel rheol.

## Mae'r awdurdod yn ymdrechu i roi ei ddull atal ar waith ac wedi cymryd camau addawol

22 Mae'r Awdurdod yn cymryd sawl cam i geisio sicrhau bod ei swyddogion yn cynnal archwiliadau diogelwch cartref o ansawdd uchel. Mae swyddogion arbenigol yn ymweld ag aelwydydd risg uwch. Maent wedi'u hyfforddi ac yn destun archwiliadau sicrhau ansawdd dwywaith y flwyddyn. Mae criwiau tân yn ymweld ag aelwydydd risg ganolig ac is. Mae gwaith criwiau hefyd yn cael ei arsylwi unwaith y flwyddyn gan swyddogion arbenigol. Mae sicrwydd ansawdd yr Awdurdod yn helpu i sicrhau bod pobl mewn perygl yn derbyn cyngor a chymorth allweddol yn gyson.

23 Mae'r Awdurdod yn casglu data ar yr archwiliadau diogelwch cartref y mae'n eu cwblhau. Gellir rhannu'r rhan yn aelwydydd risg uwch, ganolig, ac is. Yn ystod naw mis cyntaf 2024-25, roedd 29.4% o archwiliadau diogelwch cartref a gwblhawyd gan yr Awdurdod yn risg uwch.[1] Efallai fod hyn yn ymddangos yn isel, ond mae oherwydd y trothwy y mae'r Awdurdod wedi ei bennu ar gyfer ei ddiffiniad ei hun o aelwyd risg uwch. Pe bai'r Awdurdod yn cynnwys aelwydydd â thri neu bedwar ffactor risg yn ei gategori risg uwch, byddai cyfran yr archwiliadau diogelwch cartref risg uwch yn cynyddu i 46%. Nid dyma fyddai'r rhan fwyaf o'i weithgarwch o hyd, sy'n golygu y gallai'r Awdurdod dargedu ei adnoddau mwy. Awgrymir yn ymhellach gan y gostyngiad canrannol i ymweliadau diogelwch cartref o'i chymharu â'r flwyddyn gynt.

## Gallai dealltwriaeth gryfach o werth am arian helpu'r Awdurdod i wneud dewisiadau gwario

24 Mae heriau ariannu sector cyhoeddus wedi golygu penderfyniadau anodd ar draws y sector. Ariannwyd offer diogelwch cartref gan grantiau a ddyfarnwyd i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru. Yn 2023-24, derbyniodd yr Awdurdod £240,000 i brynu offer. Ariennir gweithgarwch atal arall gan gyllideb yr Awdurdod, wedi'i hariannu gan ei ardoll ar gynghorau.

25 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi wynebu pwysau newydd o ran cyllid ar gyfer ei waith atal. Mae hyn wedi cynnwys colli grant Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau tanau bwriadol, a oedd yn cynorthwyo gwaith atal. Bu cynnydd i brisiau'r offer diogelwch cartref y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu yn ystod ei ymweliadau hefyd. I liniaru'r heriau hyn, mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch pa weithgarwch y mae'n hanfodol ei ariannu o'i adnoddau ei hun.

[1] Yr asesiad o risg isel, canolig, ac uwch yw'r un a ddiffinnir ac a asesir gan yr Awdurdod. O ganlyniad, ni ddylid cymharu'r data hyn â data o Awdurdodau Tân ac Achub eraill sydd efallai'n defnyddio gwahanol ddiffiniadau.

26 Mae'r Awdurdod wedi addasu ei ddull o gael atgyfeiriadau newydd i sicrhau bod modd parhau i reoli ei lwyth gwaith yn y cyd-destun heriol hwn. Mae'r Awdurdod wedi atgyfnerthu ei neges i bartneriaid y dylent ganolbwyntio ar wneud atgyfeiriadau risg uwch. Mae wedi lleihau cyflymder ei ymdrechion i gynhyrchu atgyfeiriadau newydd eraill. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod oddef rhywfaint o risg ychwanegol, gan fod atgyfeiriadau yn ffordd allweddol y mae'r Awdurdod yn sicrhau ei hun nad yw'n methu pobl risg uwch.

27 Ni fu'n rhaid i'r Awdurdod roi'r gorau i ddarparu offer diogelwch cartref oherwydd ei bwysau ariannu eto. Yn hytrach, mae wedi blaenoriaethu ei waith. Mae'r Awdurdod yn ystyried pa un a bydd yn rhaid iddo roi'r gorau i ddarparu larymau carbon monocsid heb gyllid ychwanegol. Mae'n archwilio partneriaethau posibl i ariannu offer yn y dyfodol, ond nid ydynt wedi'u cadarnhau. Daw pob math o gyllid allanol gyda risg y gallai ddod i ben neu leihau mewn gwerth. I liniaru'r risg hon, mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch pa weithgarwch sy'n hanfodol ei ariannu o'i adnoddau ei hun.

28 Wrth wneud penderfyniadau anodd yn y cyd-destun hwn, mae angen i'r Awdurdod asesu gwerth ei weithgarwch. Gallai hyn fod, er enghraifft, drwy nodi'r risgiau ychwanegol a wynebir gan bobl risg uwch heb ymweliad diogelwch cartref. Byddai hyn yn helpu'r Awdurdod i ddeall y gost o'i chymharu â budd unrhyw arbedion arfaethedig. Byddai hefyd yn hysbysu dewisiadau gan yr Awdurdod am gyfanswm cyfran ei adnoddau y mae'n eu neilltuo i atal. Gallai hyn gynnwys ystyried gwahanol ffyrdd o atal tanau o'u cymharu â'i ddull presennol. Oherwydd nad oes gan yr Awdurdod ddull i wneud hyn eto, ni all ddangos yn llawn sut mae'n ystyried gwerth am arian wrth neilltuo adnoddau ar gyfer atal.

## Mae anafusion tân wedi lleihau ond mae angen i'r Awdurdod fod yn eglur ynghylch y gweithgarwch atal sy'n gweithio

29 Mae'r Awdurdod wedi rhoi'r rhannau allweddol o'i system i fonitro ac adrodd ar ei waith atal ar waith. Mae monitro ac adrodd yn allweddol gan eu bod yn helpu'r Awdurdod i ddeall beth sy'n gweithio a'r hyn y mae angen ei newid. Mae gan yr Awdurdod ddangosfwrdd perfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am yr archwiliadau diogelwch cartref a gwblhawyd a digwyddiadau tân. Mae data hyn hefyd wedi'u cynnwys mewn adroddiadau tri misol i arweinwyr uwch a'r Awdurdod Tân. Mae proses hefyd ar waith i adrodd canfyddiadau o unrhyw ddigwyddiadau angheuol i gynorthwyo dysgu.

30 Gallai'r Awdurdod adeiladu ar hyn ymhellach i helpu i hysbysu ei ddull. Gallai hyn gynnwys data cydraddoldeb. Ni all yr Awdurdod adolygu'r aelwydydd y mae wedi ymweld â nhw yn ôl nodweddion gwarchodedig neu ddangosyddion economaidd-gymdeithasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i'r Awdurdod fonitro risgiau sy'n gysylltiedig â rhai cymunedau. Mae hefyd yn ei gwneud yn anoddach iddo ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

31 Mae'r Awdurdod yn gosod targedau ac yn cofnodi amseroedd ar gyfer cwblhau archwiliadau diogelwch cartref. Mae hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod dystiolaeth o faint o amser y mae'n ei gymryd i achosion ddatblygu a chyrraedd canlyniad. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i fonitro a chynllunio gweithgarwch. Fodd bynnag, gallai targedau amser hefyd atal swyddogion rhag treulio mwy o amser ar achosion mwy cymhleth.

32 Gallai'r Awdurdod hefyd wneud mwy o ddefnydd o'i ddata digwyddiadau, gan gynnwys achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd. Gall data digwyddiadau roi gwybodaeth nid yn unig am bwy allai fod mewn perygl, ond hefyd am ffyrdd o gryfhau'r broses archwiliadau diogelwch cartref. Canfuwyd rhai enghreifftiau gennym lle'r oedd yr Awdurdod wedi addasu'r broses mewn ymateb i wersi neu ddigwyddiadau. Gallai wneud y broses ddysgu hon yn fwy systematig. Yn benodol, mae'n bwysig gwirio a ellir dysgu unrhyw wersi o achosion lle mae archwiliad diogelwch cartref wedi cael ei gynnal, ond mae digwyddiad yn dal i godi.

33 Nid yw craffu gan yr Awdurdod wedi cefnogi dysgu. Mae Cynghorwyr wedi gofyn cwestiynau i swyddogion am y dull a ddefnyddiwyd tuag at atal. Fodd bynnag, mae hyn wedi bod yn gyfyngedig. Gall craffu gan rai nad ydynt yn swyddogion helpu i gynnig gwahanol safbwynt ar weithgarwch a helpu i nodi gwelliannau i gynorthwyo i sicrhau gwerth am arian.

34 Nid oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth fanwl o sut mae ei weithgarwch yn helpu i atal tanau rhag digwydd. Mae tanau annedd ac anafusion wedi gostwng yn sylweddol ers 2009-10. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod yn eglur ynghylch sut y mae ei weithgarwch wedi cyfrannu at hyn. Mae mesur effaith atal pan nad yw digwyddiad wedi digwydd yn amlwg yn eithriadol o anodd. Mae Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân wedi cyflawni asesiad o fanteision gwaith atal draw yn Lloegr.[2] Amcangyfrifodd bod gan archwiliadau diogelwch cartref enillion gros o fuddsoddiad o 267% am bob punt a wariwyd rhwng 2016 a 2019. Ni chwblhawyd unrhyw ddadansoddiad cymharol diweddar ar lefel Cymru neu Awdurdod.

[2] Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, *Economic and Social Value of the UKFRS*, Gorffennaf 2023

# Argymhellion

**A1** Canfuwyd risgiau gennym o ran sut mae'r Awdurdod yn nodi pobl â pherygl uwch o dân. Rydym yn argymell y dylai'r Awdurdod asesu lle allai fod ganddo fylchau yn ei ddull a dylai fynd i'r afael â'r bylchau hyn i sicrhau bod ei gamau yn targedu pobl â'r risg uchaf. Wrth wneud hyn, dylai'r Awdurdod:

**1.1** Chwilio'n rheolaidd am risgiau y tu allan i ddata digwyddiadau'r gorffennol.

**1.2** Treialu dulliau o nodi pobl â risg uwch o dân sydd mewn sefyllfaoedd ynysig a mabwysiadu unrhyw ddulliau effeithiol. Dylai hyn gynnwys defnyddio data.

**1.3** Cynnwys cymunedau â nodweddion gwarchodedig i sicrhau dull cynhwysol.

**1.4** Ychwanegu camau sicrhau ansawdd i leihau'r perygl na fydd partneriaid yn atgyfeirio pobl â risg uwch o dân.

**1.5** Cymharu'r partneriaid y mae'n gweithio â nhw ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill i sicrhau cyflawnrwydd ei ddull.

**A2** Canfuwyd gennym fod yr Awdurdod angen cryfhau ei ddealltwriaeth o’r gwerth a ychwanegir gan ei weithgarwch atal. Mae hyn er mwyn cefnogi’n fwy eglur y gwaith o dargedu adnoddau i ddangos y gwerth am arian sy’n cael ei sicrhau. I wneud hyn, dylai’r Awdurdod:

**2.1** Ddatblygu ffyrdd o asesu cyfraniad gweithgarwch atal at leihau tanau, marwolaethau tân, ac anafiadau difrifol – yn enwedig i’r rhai sydd mewn perygl uwch o dân.

**2.2** Datblygu dull strwythuredig o asesu costau, manteision a risgiau ei ddull ac opsiynau amgen. Dylai hyn adlewyrchu parodrwydd i dderbyn risg a dyletswyddau cydraddoldeb yr Awdurdod.

**2.3** Defnyddio ei ddull strwythuredig i adolygu ei ddiffiniadau o achosion risg isel, canolig, ac uchel ar adnoddau a ddyrennir.

**2.4** Cydweithio ag Awdurdodau Tân ac Achub eraill Cymru i sefydlu diffiniadau cyffredin i alluogi cymariaethau a dysgu rhwng Awdurdodau. Dylai hyn hefyd ystyried safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â’n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom edrych ar y dull a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu’r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anafiadau difrifol neu farwolaeth. Fe wnaethom ganolbwyntio ein gwaith ar edrych sut mae’r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol.

Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, fel addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom edrych ar atal chwaith i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, fel gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

I ddeall dull yr Awdurdod, fe wnaethom edrych ar:

- dealltwriaeth yr Awdurdod o bwy sydd mewn perygl o dân;
- eglurder polisi a dull yr Awdurdod;
- y partneriaid y mae’r Awdurdod yn gweithio â nhw i atal tanau;
- yr adnoddau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i atal tanau; a’r
- gwerthusiad gan yr Awdurdod o’i weithgarwch.

### Meini prawf

Hysbyswyd yr hyn y gwnaethom chwilio amdano gan amrywiaeth o ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) i ddeall sut roedd yr Awdurdod yn dangos ei fod yn gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy.

# Dulliau

Roedd ein dulliau yn cynnwys:

- Dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr Awdurdod ac a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru o ran gwaith atal.
- Adolygu dogfennau – fe wnaethom ddarllen dogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb i'n cwestiynau archwilio. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau a dogfennau grant ar gyfer pob un o dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol.
- Cyfweliadau – fe wnaethom gyfweld pum swyddog o'r Awdurdod sy'n rhan o gyflawni gweithgarwch atal.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ambarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân â'r swyddogaethau penodol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.